

To: CEOs' Public Sector bodies
Senior WG stakeholders

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Reference: AC/245/caf

Date issued: 22 January 2021

Dear Colleague

As the public sector continues to grapple with the impact of Covid-19, I am writing to outline how I intend to approach our audit work with you over the next few months.

Firstly, however, I want to acknowledge the tremendous efforts that your organisations are continuing to make in the battle against Covid. Our on-going engagement with you throughout last year, albeit remotely, gave Audit Wales staff an insight into just how challenging this has been and also how public sector bodies have risen to that challenge. Above all, so many staff within public bodies and government departments have gone above and beyond their normal duties to keep services going and to try to keep the people of Wales safe. As Auditor General, and on behalf of Audit Wales staff, I'd like to record our continued thanks and admiration for this incredible effort and commitment.

Though roll-out of vaccine gives us all hope of some light at the end of the tunnel, I am conscious that current pressures are extreme and frontline services must be prioritised. The approach of Audit Wales remains, therefore, to take forward our work in ways which do not impede the public service response to the pandemic. We are continuing to work remotely, and I am sympathetic to the need, in some areas, to adjust the timing and focus of our work to take account of the pressures within individual public sector bodies. We will do this on a case by case basis which will mean some of our workstreams can continue to be progressed whilst others will need to be paused and either rescheduled or substituted for work which better suits the current environment. I will keep a degree of flexibility within my programmes of work to enable this. Unsurprisingly our own resources are also somewhat depleted at the moment as a result of sickness absence and staff having to adjust their daily lives around caring, home-schooling and other responsibilities, so that also has a bearing on our current activities and delivery.

My over-riding aim will be to deliver my statutory responsibilities, and to continue to comment on significant issues of public interest, in a pragmatic way which is sensitive to the pressures that services are under. To help us achieve that balance while managing the pressures on your own organisation, please continue to liaise closely with your Audit Wales engagement lead as you have done throughout the pandemic.

I hope that this is a helpful approach and update. I wish you all the very best for the challenges that lie ahead.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Adrian Crompton', with a long horizontal flourish extending to the right.

ADRIAN CROMPTON
Auditor General for Wales

At: Prif Weithredwyr
Cyrff y Sector Cyhoeddus
Uwch Randdeiliaid yn
Llywodraeth Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: AC/245/caf

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Ionawr 2021

Annwyl Gydweithiwr

Wrth i'r sector cyhoeddus barhau i ymgodymu ag effaith Covid-19, ysgrifennaf i amlinellu sut y bwriadaf ymdrin â'n gwaith archwilio gyda chi dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Yn gyntaf, fodd bynnag, hoffwn gydnabod yr ymdrechion aruthrol y mae eich sefydliadau yn parhau i'w gwneud yn y frwydr yn erbyn Covid. Rhoddodd ein hymgysylltiad parhaus â chi drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, er mai o bell yr oedd hynny, gipolwg i staff Archwilio Cymru ar ba mor heriol yn union y mae hyn wedi bod a hefyd sut y mae cyrff y sector cyhoeddus wedi ymateb i'r her honno. Uwchlaw popeth, mae cynifer o staff mewn cyrff cyhoeddus ac yn adrannau'r llywodraeth wedi mynd ymhell y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol er mwyn cadw gwasanaethau i fynd ac i geisio cadw pobl Cymru'n ddiogel. Fel Archwilydd Cyffredinol, ac ar ran staff Archwilio Cymru, hoffwn gofnodi ein diolch a'n hedmygedd parhaus o'r ymdrech a'r ymrwymiad anhygoel hwn.

Er bod cyflwyno'r brechlyn yn rhoi gobaith i ni i gyd o rywfaint o oleuni ym mhen draw'r twnnel, rwyf yn ymwybodol bod y pwysau presennol yn eithafol a bod yn rhaid blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen. Bwriad Archwilio Cymru, felly, yw parhau i ddatblygu ein gwaith mewn ffyrdd na fyddant yn llesteirio ymateb y gwasanaethau cyhoeddus i'r pandemig. Rydym yn parhau i weithio o bell, ac mae gennyf gydymdeimlad â'r angen, mewn rhai ardaloedd, i addasu amseriad a chanolbwynt ein gwaith er mwyn cymryd i ystyriaeth y pwysau o fewn cyrff unigol yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn gwneud hyn fesul achos, fydd yn golygu y gellir parhau i ddatblygu rhai o'n ffrydiau gwaith tra bydd angen rhoi'r gorau i eraill am ychydig, a naill ai eu haildrefnu neu eu newid am waith sy'n gweddu'n well i'r amgylchedd presennol. Byddaf yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd o fewn fy rhaglenni gwaith er

mwyn gwneud hyn yn bosibl. Nid yw'n rhyfedd bod ein hadnoddau ninnau ychydig yn brinnach ar hyn o bryd o ganlyniad i absenoldeb salwch a staff yn gorfod addasu eu bywydau bob dydd o gwmpas gofalu, addysgu plant gartref a chyfrifoldebau eraill, ac felly mae hynny hefyd yn dylanwadu i ryw raddau ar ein gweithgareddau presennol a'r hyn y gallwn ei gyflawni.

Fy nod bennaf fydd cyflawni fy nghyfrifoldebau statudol a pharhau i wneud sylwadau ar faterion pwysig sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ffordd ymarferol, sy'n sensitif i'r pwysau sydd ar wasanaethau. Er mwyn ein cynorthwyo i sicrhau'r cydbwysedd hwn, tra'n rheoli'r pwysau ar eich sefydliad chi eich hun, parhewch i gysylltu'n agos â'ch arweinydd ymgysylltu yn Archwilio Cymru, os gwelwch yn dda, fel yr ydych wedi gwneud drwy gydol y pandemig.

Gobeithio bod y dull hwn a'r diweddariad o gymorth. Dymunaf y gorau i chi i gyd ar gyfer yr heriau sydd o'ch blaen.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru